YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

Gweinidogaeth Gomisiynedig yn yr Eglwys yng Nghymru

# ARWEINYDD ADDOLIAD

## Beth yw gweinidogaeth gomisiynedig?

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau mathau o weinidogaeth gyhoeddus, achrededig a elwir yn weinidogaethau comisiynedig. Mae tri math o weinidogaeth gomisiynedig:

**Arweinydd Addoliad**
**Cynorthwy-ydd Bugeiliol**
**Catecist**

Mae'r gweinidogaethau hyn yn cael eu dirnad a'u gweithredu yn eich ardal weinidogaeth / genhadaeth chi, gyda chaniatâd eich eglwys leol, ac mae eich esgobaeth yn cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer y gweinidogaethau hyn.

## Beth mae Arweinydd Addoliad yn ei wneud?

**Mae Arweinwyr Addoliad yn cynorthwyo gweinidogion trwyddedig ac ordeiniedig i arwain gwasanaethau addoliad.**

**Gall eu gwaith gynnwys:**

- arwain gwasanaethau boreol a hwyrol weddi
- cynorthwyo gyda Gweinidogaeth y Gair pan fo'r Cymun yn cael ei weinyddu
- arwain Gwasanaethau'r Gair, o fewn a thu allan i'r eglwys, pan na fydd pregeth neu Gymun
- arwain yr ymbiliau neu alluogi eraill i wneud hynny
- annog yr Eglwys i ddatblygu creadigrwydd ac arfer da o ran ei litwrgi a'i haddoliad

## Allwn i fod yn Arweinydd Addoliad?

**Fel Arweinydd Addoliad, byddai disgwyl i chi:**

- fod wedi ymrwymo'n weithredol i'ch ffydd
- fod yn gallu cyflawni'r meini prawf ffurfiol ar gyfer gweinidogaeth gomisiynedig gyhoeddus, gynrychiadol
- fod yn barod i weithio dan gyfarwyddyd gweinidogion trwyddedig neu ordeiniedig
- gael asesiad DBS boddhaol ac ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch angenrheidiol
- ddangos tystiolaeth bod gennych chi ddawn ar gyfer y gwaith hwn megis llais cymharol gryf, y gallu i gyflwyno'n glir, sensitifrwydd wrth weddïo'n gyhoeddus, a'r hunanhyder priodol

## Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy ngalw i fod yn Arweinydd Addoliad

### Beth yw'r cam nesaf?

Siaradwch â rhywun yn nhîm arweinyddiaeth eich eglwys – arweinydd eich ardal weinidogaeth / genhadaeth neu offeiriad arall efallai. Byddant yn eich rhoi ar ben ffordd ar eich siwrne o ddirnadaeth, a chewch gyfle i ystyried a yw'r weinidogaeth hon yn iawn i chi, ac ai chi yw'r unigolyn iawn ar gyfer y weinidogaeth hon.

YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

Gweinidogaeth Gomisiynedig yn yr Eglwys yng Nghymru

# CYNORTHWY-YDD BUGEILIOL

## Beth yw gweinidogaeth gomisiynedig?

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau mathau o weinidogaeth gyhoeddus, achrededig a elwir yn weinidogaethau comisiynedig. Mae tri math o weinidogaeth gomisiynedig:

**Arweinydd Addoliad**
**Cynorthwy-ydd Bugeiliol**
**Catecist**

Mae'r gweinidogaethau hyn yn cael eu dirnad a'u gweithredu yn eich ardal weinidogaeth / genhadaeth chi, gyda chaniatâd eich eglwys leol, ac mae eich esgobaeth yn cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer y gweinidogaethau hyn.

## Beth mae Cynorthwy-ydd Bugeiliol yn ei wneud?

**Mae Cynorthwy-ydd Bugeiliol yn cefnogi gweinidogion ordeiniedig i ddangos cariad tebyg i Grist a chonsyrn tuag at eraill trwy ofal bugeiliol o fewn a thu allan i'r eglwys.**

**Gall eu gwaith gynnwys:**

- bod gyda'r claf a'r dioddefus, gwrando arnynt a gweddïo drostynt
- ymweld â'r cleifion a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi ar ran yr eglwys
- ymgymryd â dirnadaeth a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer arbenigeddau ychwanegol megis ymweld â phriodasau, ymweld â bedyddiadau, gweinidogaeth galar, ymweld Ewcaristig, neu weinidogaeth gweddïo ac iachau

## Allwn i fod yn Gynorthwy-ydd Bugeiliol?

**Fel Cynorthwy-ydd Bugeiliol, byddai disgwyl i chi:**

- fod wedi ymrwymo'n weithredol i'ch ffydd
- fod yn gallu cyflawni'r meini prawf ffurfiol ar gyfer gweinidogaeth gomisiynedig gyhoeddus, gynrychiadol
- fod yn barod i weithio dan gyfarwyddyd gweinidogion trwyddedig neu ordeiniedig
- gael asesiad DBS boddhaol ac ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch angenrheidiol
- dangos tystiolaeth bod gennych chi ddawn ar gyfer y gwaith hwn, megis y gallu i wrando'n astud, sensitifrwydd wrth weddïo gyda a thros eraill, a'r gallu i gadw cyfrinachau

## Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy ngalw i fod yn Gynorthwy-ydd Bugeiliol

**Beth yw'r cam nesaf?**

Siaradwch â rhywun yn nhîm arweinyddiaeth eich eglwys – arweinydd eich ardal weinidogaeth / genhadaeth neu offeiriad arall efallai. Byddant yn eich rhoi ar ben ffordd ar eich siwrne o ddirnadaeth, a chewch gyfle i ystyried a yw'r weinidogaeth hon yn iawn i chi, ac ai chi yw'r unigolyn iawn ar gyfer y weinidogaeth hon.

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Gweinidogaeth Gomisiynedig yn yr Eglwys yng Nghymru

# CATECIST

## Beth yw gweinidogaeth gomisiynedig?

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau mathau o weinidogaeth gyhoeddus, achrededig a elwir yn weinidogaethau comisiynedig. Mae tri math o weinidogaeth gomisiwn:

**Arweinydd Addoliad**
**Cynorthwy-ydd Bugeiliol**
**Catecist**

Mae'r gweinidogaethau hyn yn cael eu dirnad a'u gweithredu yn eich ardal weinidogaeth / genhadaeth chi, gyda chaniatâd eich eglwys leol, ac mae eich esgobaeth yn cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer y gweinidogaethau hyn.

## Beth mae Catecist yn ei wneud?

**Mae Catecist yn cynorthwyo gweinidogion ordeiniedig i helpu pobl i ddyfnhau eu ffydd trwy ddysgu a galluogi astudio o fewn yr eglwys leol.**

**Gall eu gwaith gynnwys:**

- annog yr eglwys i dyfu mewn gwybodaeth, ffydd a disgyblaeth trwy astudio a myfyrio
- galluogi eraill i archwilio eu credoau drostynt eu hunain
- arwain mewn modd a fydd yn hwyluso grwpiau astudio ar gyfer rhaglenni a chyrsiau bod yn ddisgybl
- cynorthwyo i baratoi ymgeiswyr ar gyfer bedydd a chonffyrmasiwn

## Allwn i fod yn Gatecist?

**Fel Catecist, byddai disgwyl i chi:**

- fod wedi ymrwymo'n weithredol i'ch ffydd
- fod yn gallu cyflawni'r meini prawf ffurfiol ar gyfer gweinidogaeth gomisiynedig gyhoeddus, gynrychiadol
- fod yn barod i weithio dan gyfarwyddyd gweinidogion trwyddedig neu ordeiniedig
- gael asesiad DBS boddhaol ac ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch angenrheidiol
- ddangos tystiolaeth bod gennych chi ddawn ar gyfer y gwaith hwn, megis y gallu i ysbrydoli trwy addysgu a'r awydd i alluogi dysgu gydol oes a disgyblaeth fywiog

## Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy ngalw i fod yn Gatecist

**Beth yw'r cam nesaf?**

Siaradwch â rhywun yn nhîm arweinyddiaeth eich eglwys – arweinydd eich ardal weinidogaeth / genhadaeth neu offeiriad arall efallai. Byddant yn eich rhoi ar ben ffordd ar eich siwrne o ddirnadaeth, a chewch gyfle i ystyried a yw'r weinidogaeth hon yn iawn i chi, ac ai chi yw'r unigolyn iawn ar gyfer y weinidogaeth hon.